Polisi cyfryngau cymdeithasol

Mae'r polisi hwn yn cynnwys gwybodaeth am gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Rheoleiddiwr Codi Arian a sut rydym yn eu rheoli. Gellir diweddaru'r polisi hwn o bryd i'w gilydd.

Ein cyfrifon

Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfleu diweddariadau am ein gwaith a rhannu gwybodaeth am reoleiddio, digwyddiadau neu fentrau eraill a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau codi arian ac aelodau o'r cyhoedd.

Rydym yn gweithredu chwe chyfrif cyfryngau cymdeithasol:

Twitter (@FundrRegulator)
Linkedin (Fundraising Regulator)
YouTube (Fundraising Regulator)
Facebook (Fundraising Preference Service)

Sut rydym yn defnyddio ein cyfrifon

Ein nod yw sicrhau bod gan ein rhanddeiliaid wybodaeth gywir amdanom ni a rheoleiddio codi arian elusennol yn y DU.

Os byddwch yn dilyn ein cyfrifon, gallwch ddisgwyl i bostiadau gwmpasu'r canlynol:

- negeseuon rheoleiddio, gan gynnwys datblygiadau yn y Cod Ymarfer Codi Arian
- deddfwriaeth sy'n berthnasol i godi arian elusennol
- ein newyddion, ein barn, ein digwyddiadau, ein hymgynghoriadau, ein harweiniad, ein gweithdai a'n cyhoeddiadau diweddaraf
- hyrwyddo gwasanaethau a mentrau craidd y Rheoleiddiwr Codi Arian a'r Gwasanaeth Dewis Codi Arian
- cyfleoedd i fod yn rhan o'n hymchwil
- ein swyddi gwag presennol
- ffeithiau a ffigurau defnyddiol

Nid ydym yn ymgymryd â materion sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth plaid na materion sydd y tu hwnt i'n cylch gwaith rheoleiddio.

Sut rydym yn rheoli ein cyfrifon

Tîm cyfathrebu'r Rheoleiddiwr Codi Arian sy'n rheoli'r gweithgarwch o ddydd i ddydd ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn postio diweddariadau rheolaidd a byddwn yn ymateb i gwestiynau os gallwn ychwanegu gwerth.

Cysylltu â ni drwy'r cyfryngau cymdeithasol

Byddwn yn helpu gydag ymholiadau drwy ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol lle gallwn drwy gyfeirio defnyddwyr at gyhoeddiadau perthnasol ar ein gwefan, ein tudalen cysylltu â ni neu ein ffurflen gwyno.

Ni fydd anfon negeseuon atom drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ystyried yn gysylltu â ni at unrhyw ddiben swyddogol, ac nid yw'n fodd i ymchwilio, trafod na rhoi sylwadau ar ymholiadau neu gwynion elusennol unigol.

Rhaid i bob cwyn ac ymholiad am godi arian elusennol gael eu gwneud gan ddefnyddio ein ffurflenni ar-lein, y gallwch gael mynediad iddynt yma:

Ffurflen gwyno

Ffurflen ymholiadau

Er ein bod yn croesawu adborth a syniadau drwy ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, ni allwn ymateb i bob neges neu bost unigol a dderbyniwn. Os oes angen i chi gysylltu â ni, gallwch ein ffonio neu anfon e-bost atom gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ein gwefan yma.

Ni fwriedir i'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gael eu defnyddio gan y cyfryngau i gysylltu â ni. Os ydych yn aelod o'r cyfryngau ac os oes gennych ymholiad, dylech gysylltu â'n swyddfa'r wasg ar 020 3327 4050. Fel arall, gallwch e-bostio FR@pagefield.co.uk.

Sut rydym yn cymedroli ein cyfrifon

Rydym yn cymedroli ein holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar sail adweithiol. Ni allwn dderbyn cyfrifoldeb am gynnwys unrhyw sylwadau. Rydym yn cadw'r hawl i ddileu sylwadau ar unrhyw adeg.

Croesawn drafodaethau sy'n berthnasol i godi arian elusennol ac sy'n parchu eraill.

Ni ddylech:

- fod yn faleisus, yn sarhaus, annog casineb neu ymosod ar unrhyw un yn bersonol
- datgelu unrhyw fanylion personol, fel rhifau Yswiriant Gwladol, cyfeiriadau preifat, rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost neu fanylion cyswllt ar-lein eraill
- torri'r gyfraith (mae hyn yn cynnwys enllib) goddef gweithgarwch anghyfreithlon neu dorri hawlfraint
- dynwared neu honni ar gam eich bod yn cynrychioli person neu sefydliad
- postio negeseuon nad ydynt yn gysylltiedig â phwnc y post gwreiddiol
- unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo ar ran menter fasnachol
- gwneud sylwadau sy'n bleidiol wleidyddol eu natur

Sut rydym yn ymgysylltu â defnyddwyr eraill

Os byddwch yn dilyn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, ni fyddwn yn eich dilyn yn ôl yn awtomatig. Rydym yn dilyn sefydliadau ac unigolion sy'n berthnasol i ni, lle bo hynny'n briodol. Os dilynwn gyfrif arall, nid ydym yn cynnig unrhyw fath o gymeradwyaeth.

Efallai y byddwn yn cyfeirio at hashnodau presennol sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin i gategoreiddio negeseuon er hwylustod. Nid yw'n awgrymu cymeradwyaeth o unrhyw fath.

Rydym yn croesawu tanysgrifwyr i'n cynnwys ond yn cadw'r hawl i gael gwared ar unrhyw danysgrifiwr sy'n darparu cynnwys sy'n faleisus neu'n dramgwyddus.

Sut rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth

Er efallai na fyddwn yn gallu ymateb i'r holl sylwadau a negeseuon a dderbyniwn drwy'r cyfryngau cymdeithasol, efallai y byddwn yn eu defnyddio i lywio ein dealltwriaeth o bwnc neu fater penodol. Efallai y byddwn yn cofnodi gwybodaeth o negeseuon neu sylwadau at ddefnydd mewnol, i'n helpu i fonitro safonau codi arian yn barhaus. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cofnodi unrhyw wybodaeth bersonol gan ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol.

Ein hargaeledd

Byddwn yn adolygu ac yn monitro negeseuon a gweithgarwch arall yn ystod oriau swyddfa, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau cyhoeddus. Efallai y byddwn yn postio diweddariadau y tu allan i oriau swyddfa. Efallai na fydd ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar gael o bryd i'w gilydd. Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddiffyg gwasanaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am ein polisi cyfryngau cymdeithasol, cysylltwch â ni yma.